Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Dinas
# Canolfan Bro Llanwnda
# Llanwnda
# Caernarfon
# LL54 5UG

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/05/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Dinas Llanwnda, sy’n cwrdd yng Nghanolfan Bro Llanwnda, ger Caernarfon, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae’r lleoliad yn agor am bum bore’r wythnos rhwng 9.00 y bore a 11.30 y bore.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru i gymryd hyd at 12 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed. Ar hyn o bryd, mae pob plentyn, sy’n ddilys, yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi’i hariannu.

Mae bron pob un o’r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae’r lleoliad yn cyflogi tri ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Tachwedd 2013.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Hydref 2015 a gan Estyn ym mis Rhagfyr 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y cynllunio ar gyfer profiadau dysgu'r plant yn llwyddo ar y cyfan i fodloni eu hanghenion a'u diddordebau'n effeithiol
- gweithgareddau yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn bwrpasol
- yr ymarferwyr yn ennyn diddordeb y plant a'u cymell i lwyddo yn fwriadus
- ymarferwyr yn fodelau iaith ardderchog sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar Cymraeg y plant
- gofal tyner yr ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol ac ethos cynnes a thwymgalon
- amgylchedd dysgu diddorol, tu mewn a thu allan, yn ysgogi'r plant i weithio'n ddiwyd a chydwybodol

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad clir ac ymroddiad llawn i'r holl waith ymarferol a gweinyddol
- cydweithio cynhyrchiol ac effeithiol rhwng yr holl ymarferwyr, y pwyllgor rheoli a'r asiantaethau allanol
- gwaith a menter y pwyllgor rheoli'n gefnogol dros ben i waith dyddiol a thymor hir y lleoliad
- gweithdrefnau hunanarfarnu trylwyr yn arwain at osod targedau bwriadus, sy'n cael effaith lwyddiannus ar y ddarpariaeth
- ymarferwyr yn awyddus i elwa o hyfforddiant perthnasol i wella'u harferion deallus ymhellach
- partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni, gofalwyr a'r gymuned leol
- arweinwyr yn defnyddio'r cyllid yn fedrus i greu gwelliannau yn y ddarpariaeth ac i gynnal yr adnoddau a'r ardal allanol yn bwrpasol

## Argymhellion

A1 Gweithredu ar ganfyddiadau'r asesu i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

A2 Cynllunio gweithgareddau heriol i wella medrau'r plant wrth ddatrys problemau

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol, sy'n bodloni anghenion a diddordebau'r plant yn effeithiol.

Mae'r holl oedolion yn cymell y plant yn bwrpasol i ddysgu trwy brofiadau ymarferol yn yr ardaloedd dysgu, tu mewn a thu allan i'r adeilad. Enghreifftiau o hyn yw'r cyfleoedd gwerthfawr i chwarae rôl yn y siop sy'n gwerthu nwyddau Cymreig ac adeiladu tyrrau allan o flociau pren. Ar y cyfan, mae'r cwricwlwm yn effeithiol ac yn adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn bwrpasol. Fodd bynnag, er bod y cynllunio'n fanwl a chytbwys ar y cyfan, nid yw'n gwbl seiliedig ar ganfyddiadau'r asesu. O ganlyniad, nid yw'n herio unigolion yn ddigon cyson i gyrraedd y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus i ddarparu gweithgareddau cyffrous i'r plant. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i ddringo a llithro ar gyfarpar anturus yn yr ardal allanol ac i reoli ceir electronig yn y neuadd i deithio rhwng anifail penodol a'i hepil. Wrth ddyfalbarhau â gweithgareddau tebyg, mae'r plant yn datblygu'n effeithiol fel dysgwyr annibynnol, yn yr awyr agored ac yn yr adeilad. Enghreifftiau gweithredol o hyn yw parodrwydd y plant i ddewis llyfrau yn y gornel ddarllen, eu prysurdeb wrth balu yn y pridd cyn plannu tatws a'u brwdfrydedd wrth ganu hwiangerddi'n soniarus.

Mae'r holl ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd da i'r plant leisio eu dewisiadau personol i ddatblygu gweithgareddau ymhellach. Maent yn gwrando'n astud ar syniadau'r plant, sy'n ychwanegu'n gadarn at gymhelliant y plant yn ystod y tasgau dyddiol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae gweithgareddau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn herio'r plant i gyflawni ar eu gorau'n gyson. Enghreifftiau ymarferol o hyn yw'r cyfleoedd buddiol i blant greu siapiau a marciau'n annibynnol ar glipfyrddau yn yr ardal adeiladu a'r siop chwarae rôl. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn herio'r plant i ddilyn cyfarwyddiadau trwy ddefnyddio trefnolion yn ddeallus, pan fyddant yn llinellu i eistedd, golchi dwylo neu wrth wisgo'u cotiau.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn fuddiol iawn.  Mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith ardderchog.  Maent yn cynorthwyo a herio'r plant yn effeithiol dros ben wrth ddatblygu eu medrau llafar.  Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddefnyddio'r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau diddorol.  Mae eu holi meddylgar a phatrymau iaith cywir a chywrain yn cefnogi'r plant i ymateb yn synhwyrol ar bob achlysur.  O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn ymateb â geiriau ac ymadroddion aeddfed a chanu'n hyderus yn fuan ar ôl cychwyn yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus.  Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, coginio a phobi bwydydd traddodiadol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn bwrpasol.  Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd da i ddefnyddio ystod o offer fel gliniaduron, llechi a theganau electronig.  Mae pob ymarferwr yn herio plant yn ystyrlon, gan ddefnyddio meddalwedd addysgol ac apiau yn y Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar.

Mae darpariaeth profiadau creadigol ar gyfer y plant yn fuddiol, fel cyfleoedd i ddawnsio i gerddoriaeth, arlunio ac adeiladu lloches yn yr ardal allanol.  Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddatrys problemau yn cael eu cynllunio'n gyson.  Er bod ymarferwyr yn annog y plant i feddwl drostyn nhw eu hunain, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon bwriadus i herio unigolion hyd eithaf eu galluoedd, a defnyddio'u medrau datrys problemau yn rheolaidd.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n bwrpasol ar ddatblygu medrau corfforol y plant yn yr ardal tu allan.  Mae cyfleoedd cyson iddynt ddringo cyfarpar anturus a chwarae'n fywiog ar y buarth ac yn y neuadd.  Mae'r ymarferwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael iddynt yn y neuadd, sy'n herio'r plant yn effeithiol i ddatblygu eu medrau corfforol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant, er enghraifft ymweliad â'r maes awyr i ymweld â'r ambiwlans awyr.  Mae ymwelwyr fel archifydd â theganau o'r oes a fu, ac adeiladwr, yn addysgu'r plant yn effeithiol am eu milltir sgwâr a rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu:  Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn canolbwyntio ar gynnal disgwyliadau uchel ar gyfer y plant ac maent yn cydweithio'n ddiwyd i weithredu'r athroniaeth hon.  Maent yn llwyddo, trwy addysgu effeithiol, i wella gwybodaeth a dealltwriaeth y plant yn gadarnhaol.  O ganlyniad, mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac maent yn deall y gofynion a'r disgwyliadau sy'n perthyn i'r cyfnod sylfaen yn drwyadl.

Mae'r ymarferwyr yn herio'r plant yn rheolaidd yn ystod y tasgau ffocws a pharhaus.  Mae eu defnydd o'r Gymraeg yn rhagorol, wrth iddynt fodelu patrymau iaith a geirfa gyfoethog mewn ffyrdd tawel a chefnogol.  Maent yn dyfalbarhau yn ddiwyd i sicrhau bod y plant yn ynganu'n gywir, i gyfatebu â'u safonau llafar, sy'n gwella cyflawniadau'r plant ac yn creu dysgu cynhyrchiol.

Mae gan ymarferwyr ymwybyddiaeth gadarn o bryd i ymyrryd ym mhrofiadau a chwarae'r plant, er mwyn eu hysgogi a'u cymell i lwyddo, naill ai gyda chymorth neu'n annibynnol.  Er enghraifft, mae'r plant yn dyfalbarhau i ddarganfod wyau Pasg â gefelau a chynllunio tŵr ar bapur cyn creu'r adeiladwaith.  Yn ogystal, caiff y plant gyfleoedd ysgogol i chwarae'n annibynnol a chreadigol, fel peintio tusw o gennin Pedr wrth îsl.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol ac mae gweithdrefnau diogel yn perthyn i'w gwaith tu mewn a thu allan i'r adeilad.  Mae eu trafodaethau synhwyrol â'r plant yn annog eu cyfranogiad a'u mwynhad ym mhob gweithgaredd yn effeithiol.  O ganlyniad, mae'r plant yn barod iawn i ddechrau gweithgareddau'n frwd a byrlymus wrth weithio a thrafod gyda'i gilydd.

Mae'r gweithdrefnau asesu a'r arferion i gofnodi cyflawniadau plant yn effeithiol.  Mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad.  Mae'r holl ymarferwyr yn cofnodi'r asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson.  Maent yn trafod gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith yn synhwyrol.  Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio i weithredu ar eu canfyddiadau yn ddigon cyson, wrth gynllunio i'r dyfodol, i herio unigolion hyd eithaf eu galluoedd wrth ddatrys problemau.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant.  Mae deialog dyddiol yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr, sy'n atgyfnerthu hyn yn effeithiol.  Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae gwybodaeth gynhwysfawr am gyflawniad y plant ar gael i rieni a gofalwyr.  Mae'r lleoliad yn darparu llyfrynnau gwerthfawr ac addysgiadol i'r rhieni.  Maent yn llawn lluniau ac anodiadau pwrpasol, sy'n adlewyrchu cynnydd eu plant dros eu hamser yn y lleoliad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant.  Mae'r ymarferwyr yn defnyddio cyfnodau torfol i'r plant fyfyrio ac i ystyried teimladau ei gilydd yn bwrpasol.  Drwy hyn, maent yn meithrin gwerthoedd fel dweud y gwir, gweithredu tegwch a dangos parch yn llwyddiannus.  Yn ogystal, maent yn atgyfnerthu'r gwerthoedd hyn a'u pwysigrwydd yn effeithiol yn ystod gweithgareddau grŵp.  Mae'r gweithdrefnau a'r ddarpariaeth ddoeth yn creu llonyddwch wrth i blant eistedd i wrando ar oedolyn a'i gilydd, golchi eu dwylo cyn bwyta a thacluso adnoddau.  Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i'r plant gymryd eu tro'n gwrtais wrth fwyta byrbrydau a gweini llaeth a dŵr o amgylch y bwrdd bwyta.  Mae 'helpwr y dydd' yn cael cyfle gwerthfawr i gynorthwyo wrth ddosbarthu'r byrbrydau a'r diodydd, i ailgylchu nwyddau ac i gasglu a thacluso'r llestri.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant.  Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad corfforol a'u lles.  Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach gydag amrywiaeth dyddiol yn y byrbryd.  O ganlyniad, mae'r plant yn trafod yn ystyrlon bod ffrwythau a llysiau, dawnsio, rhedeg a seiclo yn cyfrannu'n dda at wella iechyd a ffitrwydd unigolyn.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu bwyd, papur, cerdyn a nwyddau plastig mewn blychau penodol yn yr ardaloedd ailgylchu.  Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer y plant.  Mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus pan fydd y plant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu.  Mae'r defnydd o strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn dileu unrhyw fath o aflonyddwch neu ymddygiad afreolus ymysg y plant.  Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn ddiwyd pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad.  Mae'r ymarferwyr yn adolygu cynnydd y plant yn rheolaidd a chaiff eu mannau cychwyn eu nodi'n drylwyr gan ddilyn canllawiau proffil y cyfnod sylfaen.

Mae'r lleoliad yn darparu cymorth ychwanegol i blant penodol yn bwrpasol pan fo angen.  Mae'r ymarferwyr yn trafod y rhain gydag asiantaethau arbenigol er mwyn darparu cymorth cyn gynted ag sy'n bosibl gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol.  O ganlyniad, maent yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol i gefnogi plant ag anghenion dysgu, ac yn llwyddo i gefnogi trwy eu gweithredu'n bwrpasol.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cefnogol drwy weithgareddau dyddiol a'r agweddau cadarnhaol a fabwysiadir gan yr ymarferwyr.  Mae'n gymuned hollol gynhwysol lle caiff yr holl blant fynediad cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r offer.

Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth drylwyr o bob plentyn ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod yn llwyddiannus trwy drafodaethau dyddiol a chofnodion cydwybodol.  Mae'r ymarferwyr yn herio plant yn ddyddiol mewn moddau cadarnhaol, gofalus a thyner, sy'n eu cymell i ddyfalbarhau a llwyddo.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus trwy ddathlu nifer o wyliau o bob cwr o'r byd yn flynyddol fel Diwali.  Maent yn astudio arferion o wledydd fel Rwsia ac Awstralia ac maent yn astudio bwydydd o wledydd a chyfandiroedd eraill fel yr Eidal ac Asia.  Yn ogystal, maent yn defnyddio doliau o wahanol gefndiroedd ethnig i hyrwyddo gwahaniaethau diwylliannol yn bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio adnoddau'n llwyddiannus i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant.  Maent yn sicrhau bod adnoddau o fewn cyrraedd y plant ac mae'r plant yn gallu cyrraedd y cyfarpar heb drafferth.  Mae hyn yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn llwyddiannus.  Mae hyn yn amlwg wrth iddynt drafod llyfrau a chofnodi pa wyau sydd wedi eu cuddio yn yr ardal allanol yn gwbl annibynnol ar glipfyrddau.  O ganlyniad, mae'r lleoliad yn sicrhau bod ystod eang yr adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus a thasgau ffocws.

Mae'r adeilad o ansawdd safonol, yn cael ei gynnal yn dda ac mae'n ddiogel.  Mae'r ardal allanol ddiddorol yn cael ei defnyddio'n bwrpasol.  Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd ysgogol i'r plant ddatblygu eu medrau yn yr ardaloedd difyr tu allan.  Er enghraifft, maent yn tyfu a phlannu blodau a llysiau, coginio yn y gegin fwd

a rheoli rhediad y dŵr, trwy ddefnyddio tapiau ar wahanol uchderau. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'u milltir sgwâr yn synhwyrol iawn. Maent yn ymweld â chanolfannau garddio, y maes awyr a lonydd tawel a gwledig yr ardal, er mwyn atgyfnerthu a sbarduno profiadau'r plant yn llwyddiannus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd, yr ymarferwyr a'r pwyllgor rheoli yn bodloni anghenion y plant yn effeithiol ac yn dathlu eu cyflawniadau a'u cynnydd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r gweithredoedd dyddiol, yr amcanion a chynlluniau'r lleoliad yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddarparu profiadau ysgogol i'r plant.

Mae'r arweinydd yn brofiadol ac effeithiol. Mae hi'n cydweithio â thîm o ymarferwyr ymroddgar a brwdfrydig. Mae hi'n defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i greu gwelliannau i'r ddarpariaeth, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant. Mae ei gweledigaeth glir yn canolbwyntio'n rheolaidd ar wella'r addysgu a'r dysgu. Mae'r prif ffocws hwn yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau cyson yn y lleoliad. O ganlyniad, mae ganddi ddisgwyliadau uchel o ran yr ymarferwyr a'r plant, sy'n cymell pawb i wneud gwelliannau mewn ffyrdd synhwyrol a phwrpasol.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys cyfraniad y pwyllgor rheoli, yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddifyr a diddorol. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac yn gweithio'n gydwybodol fel tîm medrus. Mae arferion cadarn yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ynglŷn â goruchwylio a gwerthuso'r gwaith ymarferol yn deg a sefydlog. O ganlyniad, gwneir y gorau o arbenigedd ymarferwyr. Arfer dda, sy'n ymestyn y weithdrefn hon ymhellach, yw'r weithred ddiweddar o werthuso a monitro effaith addysgu ei gilydd ar safonau'r plant.

Mae'r arweinydd a'i thîm yn canolbwyntio'n gydwybodol ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd ar draws yr holl ardaloedd dysgu a gweithredu gofynion y proffil cyfnod sylfaen.

Mae'r pwyllgor rheoli'n derbyn gwybodaeth ddilys a gweithredol am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd. Maent yn chwarae rhan ymarferol, fentrus ac effeithiol ym mywyd y lleoliad. Mae'r pwyllgor rheoli'n herio'r lleoliad yn synhwyrol i gynnal arferion cyson a chefnogi i ddatblygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu, sy'n arwain at welliannau llwyddiannus, yn rhan annatod o waith tymhorol y lleoliad. O ganlyniad i'r arfarniadau doeth, mae'r ymarferwyr wedi creu gwelliannau sylweddol yn yr ardal allanol. Mae'r ardal hon, erbyn hyn, yn cynnwys cyfleoedd ysgogol i blant arbrofi, ymchwilio, datblygu'n gorfforol a dysgu'n greadigol.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli, dan arweiniad yr awdurdod lleol, wedi sefydlu trefniadau cadarn i fonitro deilliannau'r plant a'r ddarpariaeth. Mae'r arweinydd a'r

pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol, yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella. Maent yn cytuno ar y targedau gyda'r ymarferwyr ac yn gweithredu'r newidiadau'n bwrpasol ar y cyd. Er enghraifft, mae buddsoddiad y lleoliad mewn cyfarpar TGCh wedi gwella medrau a hyder y plant trwy brofiadau gwerthfawr.

Mae gweithdrefnau meintiol yr awdurdod lleol, yn ogystal â gwerthusiadau'r pwyllgor rheoli, yn cyfrannu'n effeithiol at weithdrefnau hunanarfarnu. Yn ogystal, mae'r arweinydd yn ystyried barn ymarferwyr eraill, rhieni a gofalwyr a Mudiad Meithrin yn synhwyrol. O ganlyniad, mae'r lleoliad wedi gwneud gwelliannau ystyrlon dros amser. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r neuadd fawr fel adnodd dysgu a gwella'r cynllunio i ddefnyddio'u milltir sgwâr yn ddoeth i ymestyn profiadau'r plant ymhellach.

Mae'r cyswllt rhwng y meysydd i'w gwella yn yr hunanarfarniad â thargedau'r cynllun datblygu yn gyson. Mae'r targedau yn y cynllun datblygu yn deillio'n uniongyrchol o'r broses hunanarfarnu. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys manylion dilys ynglŷn â sut a pham mae angen gwella meysydd ymhellach.

Mae'r holl ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymwyd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog cyswllt Mudiad Meithrin. Maent yn gweithredu'n rheolaidd ar eu cyngor. Mae hyn yn arwain at welliannau buddiol, fel sefydlu cefnogaeth gan asiantaethau arbenigol ar gyfer plant unigol yn y lleoliad a datblygu ardaloedd cerddoriaeth a chwarae rôl yn yr ardal allanol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth a safonau a lles y plant. Er enghraifft, mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli gyda'r ysgolion lleol ac mae'r lleoliad yn cymryd rhan mewn mabolgampau a gweithgareddau fel dysgu i glocsio. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir i gefnogi'r trosglwyddo i fywyd ysgol yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol ac asesiadau ymarferwyr yn drefnus ac yn fuddiol i'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad trwy gylchlythyron a chyfryngau cymdeithasol. Maent yn cael eu hannog i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson. Mae'r lleoliad wedi gwrando ar eu sylwadau ac mae'r arweinydd yn marchnata'r lleoliad yn well ar gyfryngau cymdeithasol, oherwydd sylwadau'r rhieni.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau llwyddiannus iawn i godi arian, fel arwerthiant a chyngherddau, a chynigion am gyllid grantiau i wella'r ardal allanol. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol fel yr ambiwlans awyr, sy'n meithrin tynerwch a gofal ymhlith y plant.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn atgyfnerthu'r perthnasoedd cadarnhaol sy'n bodoli ac mae'r sefydliadau hyn yn mynd ati i gefnogi dogfennaeth a pholisïau, hyfforddiant a chyngor rheolaethol yn effeithiol.

Mae’r ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy’n gwneud cyfraniad pwysig i wella’r ddarpariaeth. Mae’r rhain yn cynnwys asiantaethau sy’n cefnogi’r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, hyfforddiant y cyfnod sylfaen a diogelu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r arweinyddiaeth yn anelu’n gyson tuag at wella pob agwedd ar waith y lleoliad trwy reoli staff ac adnoddau’n effeithiol. Maent wedi llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys gyda hyfforddiant cyflawn. Maent yn dîm sefydlog, cadarn a llwyddiannus, sy’n gwella’r ddarpariaeth yn bwrpasol ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau’r plant.

Mae’r arweinydd yn annog ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn fwriadus. O ganlyniad, mae’r lleoliad yn enghraifft gref o gymuned ddysgu gadarnhaol. Mae ganddo ddiwylliant o gydweithio diwyd rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill fel yr awdurdod lleol, Mudiad Meithrin a’r ysgolion lleol.

Mae’r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn sicrhau profiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae’r lleoliad yn rheoli adnoddau’n greadigol i gefnogi’r dysgu. Mae hyn yn cynnwys y defnydd gwerthfawr o’r ardal allanol ar gyfer gweithgareddau corfforol, ymholiadau ac ymchwiliadau fel creu lloches i oen yn yr oerfel.

Mae gan yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a’r heriau sydd ynghlwm â hi ers sawl blwyddyn. Mae’r pwyllgor rheoli’n cyfarfod i fonitro’r cyllid yn dda. Yn ogystal, maent yn sicrhau rheolaeth ariannol gadarn drwy archwiliadau annibynnol yn flynyddol. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn ofalus gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol. Maent yn codi arian yn gyson trwy weithgareddau cymunedol llewyrchus ac yn defnyddio grantiau’n effeithiol. Maent yn creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella’n bwrpasol. O ganlyniad, mae’r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau’r plant.

Mae’r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian oherwydd y ddarpariaeth bwrpasol a’r arweinyddiaeth lwyddiannus.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |